| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **13 Ebrill 2011** |
| **TEITL :** | **Sylwadau ar gyfarfod llawn y Cyngor** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mynychodd tri aelod o'r Pwyllgor gyfarfod o'r Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2011 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n mynd ymlaen yng nghyfarfodydd yr awdurdod.

2. Isod ceir adroddiad byr a baratowyd ganddynt ar gyfer y Pwyllgor:

**Sylwadau ar gyfarfod llawn y Cyngor 1/3/11**
**David Clay, Gwilym Evans a Gwyn Williams**

Fe gawsom ein plesio ar yr ochr orau gan ymddygiad a chwrteisi'r Cynghorwyr a safon y trafod drwy gydol y cyfarfod. Roedd hyn yn arbennig oherwydd roedd dau bwnc dadleuol ar yr agenda (gosod cyllideb y Cyngor a phenderfynu lleoliad ysgol ardal Bro Dysynni).

Roeddem ni'n tri yn ystyried fod pawb yn cael gwrandawiad teg, bod siaradwyr yn cael parch gan eu cyd aelodau ac nad oedd rhaid i'r Cadeirydd alw am drefn mwy nag unwaith drwy'r holl gyfarfod.

Roedd y ffaith fod rhai aelodau i weld yn siarad, ac yn pleidleisio, yn groes i farn mwyafrif eu pleidiau yn galonogol. Roeddem yn teimlo fod hyn yn beth da i ddemocratiaeth, ac yn bellach, ei fod yn dangos fod amgylchedd iach, oedd yn caniatáu rhyddid barn a mynegiant yn bodoli o fewn y pleidiau.

Rydym yn canmol hefyd hunan ddisgyblaeth yr aelodau, gan nad oedd angen i'r cadeirydd ofyn o gwbl ar i aelodau ddod a'u sylwadau i derfyn, ond bu aelodau eu hunain yn cadw eu hareithiau'n rhesymol o ran hyd.

Mae'r ychydig sylwadau sydd gennym isod yn ymwneud â threfniadaeth y cyfarfod o safbwynt y cyhoedd/ymwelwyr.

1. Byddai'n dda petai taflen "Cyngor i aelodau'r cyhoedd" ar gael fyddai'n rhoi manylion ble mae posib cael copi o agenda a phapurau eraill y cyfarfod. Gall hwn hefyd gynnwys materion eraill megis allanfeydd tân, toiledau, defnydd o ffonau symudol ac yn y blaen.

   Dylid hefyd sicrhau fod copïau o'r daflen sydd efo llun a manylion pob Cynghorydd ar gael i aelodau'r cyhoedd

2. Yn sicr nid oedd yn hawdd clywed pob Cynghorydd yn siarad. Nid oes uchelseinydd yn yr oriel gyhoeddus, ac os yw Cynghorydd yn siarad yn dawel, neu os yw'r meicroffon ddim wedi ei anelu'n gywir, mae'n anodd clywed. Mae'n ymddangos fod yr un yn wir am y cyfieithwyr oherwydd ar adegau roedd saib yn y cyfieithu, o bosib pan nad oedd y cyfieithydd yn gallu clywed.

Hoffwn longyfarch yr holl gynghorwyr ac rydym yn teimlo, os yw holl gyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau Gwynedd yn cael eu cynnal yn yr un amgylchedd positif, yna gall pobl Gwynedd fod yn haeddiannol falch o'u harweinwyr sifil.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.